Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai
12.30-1.30pm, 15 Ionawr 2019

Ystafell Bwyllgora A, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Yn bresennol

Mike Hedges AC (Cadeirydd)
Ryland Doyle (Swyddfa Mike Hedges AC)
Jack Sellers (Swyddfa David Melding AC)
Chad Richard (Swyddfa Bethan Sayed AC)
Matthew Kennedy (Sefydliad Tai Siartredig Cymru)
Catherine May (Tyfu Tai Cymru)
Nazia Azad-Warren (Tai Pawb)
Sarah Vining (Tai Pawb)
Ross Thomas (Tai Pawb)
David Wilton (TPAS Cymru)
Alex Osmond (The Wallich)
John Puzey (Shelter Cymru)
Aaron Hill (Cartrefi Cymunedol Cymru)
Victoria Walsh (CITB)
Nick Morris (Crisis)
Elinor Crouch-Puzey (Cymorth i Ferched Cymru)
Matthew Norman (Cymdeithas Landlordiaid Preswyl Cymru)
Douglas Haig (Cymdeithas Landlordiaid Preswyl Cymru)
Casey Edwards (Canolfan Cydweithredol Cymru)

Cofnodion

1. Busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Anerchodd MH y CCB yn tynnu sylw at broffil tai o fewn portffolio Llywodraeth Cymru. Dywedodd MH, oherwydd bod ACau wedi ymrwymo i fynychu sesiwn goffa ar gyfer y diweddar Steffan Lewis AC cyn y cyfarfod llawn, byddai'n gadael y cyfarfod, gan basio'r cyfrifoldeb cadeirio i John Puzey ar gyfer y sesiwn hon.
Cyflwynodd JP yr adroddiad blynyddol i'r grŵp a gofynnodd am gymeradwyaeth - cymeradwyodd y grŵp yr adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi.

Dywedodd JP mai Mike Hedges AC oedd yr unig ymgeisydd i sefyll am y swydd o gadeirydd y grŵp – cafwyd cefnogaeth unfrydol i MH barhau'n gadeirydd.

Esboniodd MK nad yw Sefydliad Tai Siartredig Cymru'n dymuno parhau fel ysgrifenyddiaeth y grŵp, yn dilyn dwy flynedd yn y swydd. Eglurodd MK fod Shelter Cymru wedi mynegi

diddordeb yn y rôl, ond roedd croeso i eraill fynegi diddordeb. Ychwanegodd JP y byddai Shelter Cymru yn fodlon i ymgymryd â'r rôl mewn partneriaeth â sefydliadau eraill naill ai nawr neu yn y dyfodol.

Ni chafwyd unrhyw geisiadau eraill, felly cymeradwywyd Shelter Cymru fel yr ysgrifenyddiaeth newydd.

2. Darlun o'r sector rhentu preifat (Cymdeithas Landlordiaid Preswyl Cymru)

- **CAM GWEITHREDU – MK i ddosbarthu'r cyflwyniad gyda'r cofnodion**

Ystyrioedd JP yr angen am lys tai arbenigol i Gymru, a'r gefnogaeth i lys o'r fath, gan annog aelodau eraill o'r grŵp i ystyried a chefnogi'r syniad hwn.

Ychwanegodd DH fod angen ystyried trefniadau tenantiaeth hirdymor a chysylltiadau i ddatrys anghydfod yn well.

3. Y Prosiect Drysau Agored – Cynnydd a chipolwg (Drysau Agored, Tai Pawb)

- **CAM GWEITHREDU – MK i ddosbarthu'r cyflwyniad gyda'r cofnodion**

Gofynnodd CM a oedd materion 'dim DSS' yn codi'n aml – awgrymodd NAW fod hyn yn digwydd yn aml. Eglurodd NAW y byddai canllawiau yn y maes hwn, gan y gallai rhai gwrthodiadau i osod tai fod yn gyfreithlon. Ar hyn o bryd caiff tenantiaid eu hannog i ddangos tystiolaeth o hanes rhentu cadarnhaol.

Nododd CM ei bod hi'n ymddangos yn anodd annog pobl i adrodd eu hanesion a dwyn achosion yn eu blaenau ar sail cydraddoldeb.

Gofynnodd JP beth fyddai dyfodol y prosiect. Esboniodd SV fod y prosiect yn cael ei ariannu tan fis Gorffennaf, ond roedd y tîm ar hyn o bryd yn trafod ariannu at y dyfodol.

Tynnodd DLl sylw at banel llais y tenant a sefydlwyd gan TPAS Cymru, a soniodd am gynlluniau i ymestyn hyn ar gyfer tenantiaid sector rhentu preifat – a allai, yn ei dro, gryfhau llais y tenantiaid yn y rhan hon o'r sector.

Tynnodd CM sylw at y ffaith y bydd Tyfu Tai Cymru yn lansio adroddiad ymchwil sy'n canolbwyntio ar rentu preifat ac iechyd meddwl ar 20 Chwefror yn adeilad y Pierhead.

4. Y sector rhentu preifat a digartrefedd (Shelter Cymru)

Tynnodd JP sylw at effaith y sector rhentu preifat wrth liniaru digartrefedd, gyda 35 y cant o ymgeiswyr mewn perygl o ddigartrefedd yn cael eu rhoi mewn llety rhent preifat – ond bod y duedd hon yn dirywio o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Tynnodd JP sylw at y ffaith mai colli llety rhent yw'r prif reswm y mae pobl yn wynebu digartrefedd a bod ffigurau'n awgrymu bod y mwyafrif yn dod o'r sector rhentu preifat.

Canfu arolwg diweddar Shelter Cymru fod 42 y cant o gartrefi ar denantiaethau treigl, gan greu mwy o ansicrwydd.

Ychwanegodd JP fod traean o waith achos llinell gymorth Shelter Cymru yn ymwneud â'r sector rhentu preifat (sef 44 y cant o'r gwaith achos yn ystod y tri mis diwethaf) ac roedd chwarter y gwaith achos hwnnw yn codi oherwydd hysbysiadau adran 21, gyda nifer sylweddol yn wynebu digartrefedd. Hefyd, canfu'r arolwg fod 75 y cant o denantiaid eisiau mwy o sicrwydd.

Awgrymodd JP ei bod yn ymddangos bod y trefniadau'r effeithio'n anghymesur ar fenywod a'u bod yn fwy tebygol o fod yn byw mewn amodau tlotach. Awgrymodd JP fod angen taro cydbwysedd gwell rhwng hawliau a chyfrifoldebau a bod angen trafod disodli adran 21 â mesurau sy'n defnyddio'r llysoedd ac yn caniatáu i achosion gael eu clywed.

Pwysleisiodd DH yr angen i ganolbwyntio ar y rhesymau sylfaenol y tu ôl i arferion fel 'dim DSS', gan dynnu sylw at y ffaith bod hysbysiadau adran 21 yn bodoli oherwydd nid yw'r system yn gweithio fel y dylai. Awgrymodd DH hefyd fod angen taro cydbwysedd gwell a bod llys tai yn un o'r atebion posibl.

Anogodd DLl y grŵp i gyrraedd sefyllfa lle gellir darparu gwybodaeth a safbwyntiau clir i ACau.

O safbwynt Cymorth i Ferched yng Nghymru, nododd ECP yr ofn i adrodd am atgyweiriadau – gallai hyn fod o ganlyniad i unigolyn sy'n byw gyda rhywun sy'n achosi'r ofn hwnnw i fodoli.

Gofynnodd DLl beth oedd angen ei wneud yng ngolau'r drafodaeth hon. Amlygodd DH y byddai'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl yn fodlon gweithio gydag unrhyw aelod ar y materion a godwyd. Roedd CM yn adlewyrchu y gallai ymchwil Tyfu Tai Cymru ar iechyd meddwl a rhentu preifat fod yn faes da i ddod o hyd i dir cyffredin ac annog aelodau i gefnogi argymhellion unwaith y'u cyhoeddwyd.

Roedd JP yn adlewyrchu y byddai'n ddefnyddiol archwilio lle'r oedd tir cyffredin yn bodoli. Soniodd JP y bydd Shelter Cymru yn nodi'r drafodaeth ynghylch digartrefedd a'r sector rhentu preifat. Awgrymodd JP fod yna dir cyffredin o ran archwilio creu 'llys o dai'.

Awgrymodd AH y gallai grŵp Cartrefi i Bawb Cymru fod yn fforwm da i ddatblygu trafodaeth y tu allan i gyfarfod y GT ar feysydd gwaith ar y cyd.

Awgrymodd DH y gallai ymchwil a gynhaliwyd trwy'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl (PEARL) fod yn adnodd defnyddiol i'r aelodau gael persbectif ar faterion sy'n effeithio ar weithwyr proffesiynol yn y sector rhentu preifat. Gwahoddodd unrhyw aelodau i gysylltu ag ef gydag ymchwil a syniadau cydweithredol.

Esboniodd JP mai yng ngrŵp Cartrefi i Bawb Cymru yw'r lle i lunio agenda'r GT a'r pynciau a godwyd gan yr ysgrifenyddiaeth i'r Cadeirydd cyn cynllunio'r cyfarfodydd – yn annog aelodau i fynychu a chyfrannu at lunio agendau'r GT yn y dyfodol.

Dywedodd JP y bydd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cadarnhau cyn bo hir.

5. Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.